Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Rhinweddau ar gyfer Offerynnau Statudol a osodwyd ond na chraffodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad arnynt yn ffurfiol yn y Bumed Senedd

Ebrill 2021

Gosodwyd pob un o'r offerynnau statudol a ganlyn gerbron y Senedd yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Bumed Senedd.

Mae Rheolau Sefydlog yn cynnwys gofyniad i sefydlu "pwyllgor cyfrifol" ac i'r pwyllgor hwnnw gyflwyno adroddiad ar Offerynnau Statudol o fewn 20 diwrnod iddynt gael eu gosod.

Yn y Chweched Senedd, mae'n annhebygol y bydd y Pwyllgor cyfrifol yn cael ei sefydlu mewn pryd i ystyried yr holl Offerynnau Statudol a osodwyd (ac na chyflwynwyd adroddiad arnynt) ar ddiwedd y Bumed Senedd o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad. Mae'n bosibl y bydd y terfyn amser o 40 niwrnod, pan gaiff y Senedd ddirymu'r offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, hefyd wedi mynd heibio cyn y caiff y Pwyllgor cyfrifol newydd gyfle i ystyried yr offerynnau hyn.

O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r offerynnau wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau craffu'r Senedd, a gall y cyfle i Aelodau o'r Senedd gyflwyno cynigion i ddirymu unrhyw un o'r offerynnau gael ei golli.

Felly, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cytuno i gyflwyno adroddiad, o dan Reol Sefydlog 21.3, yn nodi y dylai'r Senedd roi sylw arbennig i'r Offerynnau Statudol hyn am eu bod yn ymwneud â materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd (hynny yw, mae'n bosibl y byddant yn osgoi'r trefniadau craffu arferol ar gyfer Offerynnau Statudol).

## SL(5)797 - Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

Gwnaeth Rheoliadau 2014 ddarpariaeth ynghylch archwilio a chyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru eu harchwilio yn unol ag adran 13 o *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod cyd-bwyllgorau corfforaethol a sefydlwyd gan Reoliadau a wneir o dan Ran 5 o *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau 2014 lle bo hynny'n berthnasol.

Fe'u gwnaed ar: 17 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 18 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 16 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 4 Mehefin 2021

## SL(5)800 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2021 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn gymwys i gyfarfodydd gweithrediaethau

cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran 2 o *Ddeddf Llywodraeth Leol 2000*.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i adlewyrchu'r ffaith y gellir cynnal cyfarfodydd gweithrediaethau a'u pwyllgorau yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy ddulliau o bell. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau ac agendâu ar gyfer cyfarfodydd gweithrediaethau, adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfarfodydd hynny, datganiadau ysgrifenedig o benderfyniadau gweithrediaethau, adroddiadau a ystyrir wrth wneud penderfyniadau gweithrediaethau a phapurau cefndir gael eu cyhoeddi ar wefan awdurdod, er nad yw'n ofynnol cyhoeddi papurau cefndir ar wefan awdurdod pe na fyddai'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Fe'u gwnaed ar: 18 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 19 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 1 Mai 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 17 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 5 Mehefin 2021

## SL(5)801 - Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli plâu a chlefydau sy'n effeithio ar wenyn.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2A yng Ngorchymyn 2006. Mae erthygl 2 A yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n berchen ar gwch gwenyn neu sy'n gyfrifol am gwch adrodd am bresenoldeb unrhyw rywogaeth o'r gwiddon Varroa yn y cwch hwnnw i Weinidogion Cymru.

Fe'u gwnaed ar: 17 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 19 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 21 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 17 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 5 Mehefin 2021

## SL(5)802 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)". Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor.

O 15 Chwefror 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod i "wlad ar y rhestr goch" (y rhai a restrir yn Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) yn y 10 diwrnod blaenorol. Mae'n rhaid i deithwyr ddod i'r wlad drwy un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) a chwblhau cyfnod cwarantin wedi'i reoli yno am 10 diwrnod cyn teithio ymlaen i Gymru. Yn ogystal, o ran y rhai sy'n cyrraedd o "wledydd rhestr oren" (y rhai nad ydynt o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin, sef Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, neu nad ydynt ar y rhestr goch o wledydd), cafodd eithriadau eu gwneud yn fwy cyfyngol fel bod angen ynysu am 10 diwrnod ond y gall person adael am gyfnod cyfyngedig at ddibenion gwaith.

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- hepgor Portiwgal a Mauritius o'r rhestr goch, ond yn ychwanegu Oman, Qatar, Ethiopia a Somalia.
- diwygio'r rhestr o resymau dros adael mangre ynysu ar gyfer y rhai a gyrhaeddodd o wlad ar y rhestr oren;
- cynyddu'r gofynion i ynysu ar gyfer pobl sy'n cyrraedd o wledydd ar y rhestr goch;
- diwygio'r darpariaethau gorfodi ar gyfer swyddogion mewnfudo a'r heddlu mewn perthynas â phobl sydd wedi bod mewn gwledydd ar y rhestr goch.

Fe'u gwnaed ar: 19 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 19 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 20 Mawrth 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 17 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 5 Mehefin 2021

## SL(5)803 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 60M(1) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn ei gwneud yn ofynnol i gyd-bwyllgor corfforedig, y mae Rhan 6 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan Ran 5 o *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*, lunio cynllun datblygu strategol ("CDS") ar gyfer ei ardal.

Rhennir y Rheoliadau hyn yn 6 rhan ac maent yn gwneud y darpariaethau a ganlyn:

- Mae Rhan 1 yn ymdrin â materion cyffredinol;
- Mae Rhan 2 yn ymdrin â llunio a diwygio CDS;
- Mae Rhan 3 yn ymdrin â'r camau y mae rhaid eu cymryd ar ôl i CDS gael ei ddirymu;
- Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu CDS bob chwe blynedd;
- Mae Rhan 5 yn ymdrin â chynnwys adroddiad monitro blynyddol a'i gyhoeddi.
- Mae Rhan 6 yn darparu ar gyfer gofynion o ran argaeledd dogfennau.

Fe'u gwnaed ar: 18 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 22 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 28 Chwefror 2022
20 niwrnod yn dod i ben: 20 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 8 Mehefin 2021

## SL(5)804 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu gallu cynhyrchiol tir amaethyddol a leolir yng Nghymru, ac yn nodi'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi

2019 i 11 Medi 2020, at ddibenion penodol yn *Neddf Daliadau Amaethyddol 1986*.

Fe'i gwnaed ar: 19 Mawrth 2021
Fe'i gosodwyd ar: 22 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 12 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 20 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 8 Mehefin 2021

## SL(5)805 - Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ("Gorchymyn 2019") o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan *Ddeddf Pysgodfeydd 2020* ("Deddf 2020").

Mae Gorchymyn 2019 yn creu cynllun ar gyfer dyroddi a thalu hysbysiadau cosb ynglŷn â throseddau penodol yn ymwneud â physgota môr ("troseddau cosb").

Mae Deddf 2020 yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad llestrau tramor i bysgodfeydd yng Nghymru ac ym mharth Cymru, ac ar gyfer trwyddedu llestrau pysgota gan Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn dirymu darpariaethau mewn deddfwriaeth arall a oedd yn llywodraethu'r materion hynny. Mae'r Gorchymyn hwn felly yn diweddaru'r rhestr o droseddau cosb sydd wedi ei chynnwys yng Ngorchymyn 2019 drwy ddileu cyfeiriadau at ddarpariaethau trosedd sydd wedi eu dirymu gan ddarpariaethau yn Neddf 2020 a chynnwys cyfeiriadau at y darpariaethau newydd perthnasol.

Mae Deddf 2020 hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n ymwneud â manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr ac mae'n darparu ei bod yn drosedd torri'r gorchmynion hynny. Mae'r Gorchymyn hwn felly yn ychwanegu'r drosedd honno at y rhestr o droseddau cosb a bennir yng Ngorchymyn 2019.

Fe'i gwnaed ar: 22 Mawrth 2021
Fe'i gosodwyd ar: 23 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 14 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 21 Mai 2021

40 niwrnod yn dod i ben: 9 Mehefin 2021

## SL(5)806 - Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. O dan Reoliadau 2013, rhaid i bob llywodraethwr sydd newydd ei benodi, ei ail-benodi, ei ethol neu ei ailethol fynychu hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion o fewn blwyddyn iddo gael ei benodi neu ei ethol. Byddai peidio â chwblhau'r hyfforddiant yn arwain at gyfnod atal o chwe mis, ac os na fyddai'r hyfforddiant wedi'i gwblhau o fewn y cyfnod atal hwnnw o chwe mis, yn y pen draw, byddai'r llywodraethwr yn cael ei anghymwyso.

Diben y Rheoliadau yw diwygio'r diffiniad o "hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" yn Rheoliadau 2013 fel ei fod yn cyfeirio at y ddogfen hyfforddi ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer llywodraethwyr ynghylch deall data perfformiad ysgolion. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu'r hyn a ganlyn:

- caiff unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant gan ddefnyddio dogfen hyfforddi ddiwygiedig 2020 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ei drin fel pe bai'n bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant ar ddeall data perfformiad ysgolion o dan Reoliadau 2013;
- nid oes rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant data gorfodol a nodir o dan Reoliadau 2013 cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym ail-wneud yr hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Fe'u gwnaed ar: 19 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 23 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 14 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 21 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 9 Mehefin 2021

## SL(5)807 - Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

### Gweithdrefn: Drafft negyddol.

Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ('Deddf 2014') yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt.

Gosodwyd y cod drafft gerbron y Senedd ar 24 Mawrth 2021. Yn unol ag adran 146 o Ddeddf 2014, os, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft hwnnw. Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, y bwriad yw y daw'r Cod i rym ar 1 Medi 2021.

Mae'r cod yn disgrifio sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (a ddiffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014) yn unol â'r gofynion yn y cod mewn perthynas â phobl awtistig a'u rhieni a'u gofalwyr y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Mae'r cod hefyd yn gymwys i arfer swyddogaethau gwasanaethau iechyd gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n disgrifio sut y mae'n rhaid i'r cyrff iechyd perthnasol arfer eu priod swyddogaethau wrth ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig, eu rhieni a'u gofalwyr.

Fe'i gwnaed ar:
Fe'i gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru
20 niwrnod yn dod i ben: 22 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 10 Mehefin 2021

## SL(5)808 - Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Adran 81 ac Atodlen 29 i *Ddeddf y Coronafeirws 2020* ("Deddf 2020") yn darparu amddiffyniad rhag troi allan o denantiaeth breswyl.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio paragraff 1(1) o Atodlen 29 i Ddeddf 2020 drwy estyn y cyfnod perthnasol y mae Atodlen 29 yn gymwys iddo i 30 Mehefin 2021.

Effaith y newidiadau hyn fydd estyn, am dri mis arall, y cyfnod pryd y bydd angen i landlordiaid, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, roi rhagor o rybudd i denantiaid cyn dechrau achos meddiannu yn y llysoedd.

Fe'u gwnaed ar: 22 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 31 Mawrth 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 22 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 10 Mehefin 2021

## SL(5)809 - Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 i ymestyn y cyfnod atal dros dro ar gyfer y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Greenland neu'r Swistir fod wedi'u rhewi'n ddwfn, drwy newid y dyddiad 31 Mawrth 2021, a'i ymestyn i 30 Medi 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â dull gweithredu Defra a Llywodraeth yr Alban.

Fe'u gwnaed ar: 22 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 30 Mawrth 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 22 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 10 Mehefin 2021

## SL(5)810 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Cadarnhaol

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r dyddiad 1 Ebrill 2021 ym mharagraffau 5(3) a 6(1)(c) o Atodlen 5 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"), ac yn rhoi 1 Gorffennaf 2021 yn ei le. Cafodd Atodlen 5 ei mewnosod yn Rheoliadau 2011 gan reoliad 32 o Reoliadau'r

Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020.

Mae paragraff 5(3) o Atodlen 5 i Reoliadau 2011 yn ymwneud â'r gofyniad rhaghysbysu ar gyfer nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mae paragraff 6(1)(c) o Atodlen 5 yn ymwneud â'r gofyniad bod yn rhaid i nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid gael tystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnforion o drydedd wlad ar y ffurf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau cysondeb â newidiadau a gyflwynir yn fuan gan Lywodraeth y DU ar draws Prydain gyfan i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2007 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion, a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu rhoi arwaith. Bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn arwain at oedi wrth gyflwyno archwiliadau dogfennol a ffisegol mewn Safleoedd Rheoli dynodedig ar y Ffin.

Fe’u gwnaed ar: 22 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 31 March 2021
Cyfnod cymeradwyo o 28 diwrnod yn dod i ben: 27 Mai 2021

## SL(5)811 - Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Offerynnau Statudol a ganlyn sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, safonau cyfansoddiadol bwyd a labelu a hadau:

- Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006;
- Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012;

- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013;
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016;
- Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016.

Mae angen y diwygiadau er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n deillio o Ymadael â'r UE a sicrhau y gall y llyfr statud weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Fe'u gwnaed ar: 23 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 14 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 22 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 10 Mehefin 2021

## SL(5)812 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y "GDCG"), fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu ar gyfer gwneud rhywfaint o waith datblygu, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn "ddatblygiad a ganiateir".

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r GDCG i lacio rheolaeth gynllunio dros dro ar gyfer datblygiad penodedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn yn cael ei wneud er mwyn cefnogi busnesau i ailagor a'u hymdrechion i greu amgylcheddau diogel yn sgil pandemig Covid-19.

Fe'u gwnaed ar: 23 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 24 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 30 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 22 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 10 Mehefin 2021

## SL(5)813 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 i wneud darpariaeth dros dro mewn perthynas â gweinyddu Fforymau Mynediad Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gyfarfod a gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod o amhariad a achosir gan bandemig y coronafeirws.

Fe'u gwnaed ar: 24 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 26 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 1 Mai 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 24 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 12 Mehefin 2021

## SL(5)814 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021

Gweithdrefn: Negyddol

Mae *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* ('Deddf 2016') yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn, a wnaed o dan Ddeddf 2016, yn gwneud newidiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017. Eu diben yw gohirio, tan 26 Mai 2022, y gofyniad i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, i Arolygiaeth Gofal Cymru), mewn perthynas ag unrhyw un o flynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 pan fyddant wedi'u cofrestru o dan Ddeddf 2016. Mae'r Rheoliadau hefyd yn lleihau'r cynnwys gofynnol ar gyfer y datganiadau blynyddol ym mlynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21.

Fe'u gwnaed ar: 24 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 26 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 16 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 24 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 12 Mehefin 2021

## SL(5)815 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

Gweithdrefn: Gwneud Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i symud Cymru gyfan i Lefel Rhybudd 3 ac addasu dros dro sut y mae Lefel Rhybudd 3 yn gweithredu (tan ddiwedd y diwrnod ar 11 Ebrill 2021). Cyflawnir hyn drwy fewnosod Atodlen 3A newydd i'r prif Reoliadau, a gwneud diwygiadau angenrheidiol i'r prif Reoliadau i sicrhau bod cyfeiriadau at Atodlen 3 yn cael eu trin fel pe bai Atodlen 3A wedi ei rhoi yn lle Atodlen 3.

Yr effaith yw y bydd Cymru gyfan yn ardal Lefel Rhybudd 3 yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 27 Mawrth 2021.

Mae'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3 dros dro o dan Atodlen 3A yn wahanol mewn sawl ffordd i'r cyfyngiadau Atodlen 3 a fyddai fel arfer mewn grym mewn ardal Lefel Rhybudd 3. Mae'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3 sydd wedi'u haddasu dros dro yn darparu (ymhlith pethau eraill) tan ddiwedd y diwrnod ar 11 Ebrill 2021:

- Bydd y cyfyngiadau aros yn lleol yn cael eu codi yng Nghymru ac, yn eu lle, bydd cyfyngiadau mewn grym ar ddod i Gymru neu adael Cymru heb esgus rhesymol.
- Caiff llety hunangynhwysol ailagor. Dim ond i aelodau o'r un aelwyd a'u swigen gefnogaeth y gellir gosod llety.
- Caiff hyd at chwech o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed neu ofalwyr) o ddwy aelwyd yn unig gwrdd yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys mewn gerddi preifat.
- Caniateir gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer plant o dan 18 oed.
- Caiff mannau awyr agored lle y mae heneb gofrestredig neu barc neu ardd hanesyddol gofrestredig ailagor.
- Caiff llyfrgelloedd ac archifau ailagor.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 5 i'r prif Reoliadau i wneud addasiadau dros dro i alluogi'r cyfyngiadau yn Atodlen 3A i gael eu gorfodi.

Fe'u gwnaed ar: 26 Mawrth 2021
Fe'u gosodwyd ar: 26 Mawrth 2021
Yn dod i rym ar: 27 Mawrth 2021
Cyfnod cymeradwyo o 28 diwrnod yn dod i ben: 31 Mai 2021

## SL(5)817 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)". Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor.

O 15 Chwefror 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod i "wlad ar y rhestr goch" (y rhai a restrir yn Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol) yn y 10 diwrnod blaenorol. Mae'n rhaid i deithwyr ddod i'r wlad drwy un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) a chwblhau cyfnod cwarantin wedi'i reoli yno am 10 diwrnod cyn teithio ymlaen i Gymru. Yn ogystal, o ran y rhai sy'n cyrraedd o "wledydd rhestr oren" (y rhai nad ydynt o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin, sef Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, neu nad ydynt ar y rhestr goch o wledydd), cafodd eithriadau eu gwneud yn fwy cyfyngol fel bod angen ynysu am 10 diwrnod ond y gall person adael am gyfnod cyfyngedig at ddibenion gwaith.

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- ychwanegu Bangladesh, Kenya, Pacistan ac Ynysoedd Philippines at y "rhestr goch" o wledydd;
- caniatáu i gludwyr sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru;
- cyflwyno trefniant profi pwrpasol ar gyfer cludwyr o'r DU ac o'r tu allan i'r DU;
- caniatáu i fyfyrwyr ysgol breswyl ynysu mewn ysgol os ydynt wedi cyrraedd o wlad ar y "rhestr goch";
- caniatáu i berson adael ei fan ynysu ar ôl 14 diwrnod os nad yw canlyniad prawf wedi'i ddychwelyd o'r labordy.

Fe'u gwnaed ar: 8 Ebrill 2021
Fe'u gosodwyd ar: 8 Ebrill 2021
Yn dod i rym ar: 9 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 26 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 15 Mehefin 2021

## SL(5)818 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau yn diwygio

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau i addasu dros dro sut y mae Lefel Rhybudd 3 yn gweithredu yng Nghymru. Mae cyfnod yr addasiadau dros dro sydd eisoes mewn grym (gweler SL(5)815 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021) yn awr wedi'i estyn tan ddiwedd y dydd ar 25 Ebrill 2021.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau dros dro pellach:

- dileu'r cyfyngiadau ar ganfasio ar gyfer etholiadau, ond mae dyletswydd ar ganfaswyr i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'r risg o'i drosglwyddo, pan fyddant yn cyflawni'r gweithgaredd hwn, a phan fyddant yn cymryd y mesurau hynny rhaid iddynt ystyried canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;
- galluogi siopau nad ydynt yn hanfodol i ailagor;
- caniatáu i wasanaethau cysylltiad agos ailagor, gan gynnwys gwasanaethau symudol yng nghartrefi pobl megis trinwyr gwallt yn y cartref (mae diffiniad newydd o wasanaethau cysylltiad agos wedi'i gynnwys yn rheoliad 57(1)(da));

- dileu’r cyfyngiadau er mwyn caniatáu i bobl nawr ymweld drwy apwyntiad â safleoedd a ddefnyddir ar gyfer priodas, partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ar gyfer dathlu digwyddiad o’r fath, y mae’n ofynnol iddynt gau fel arall;
- dileu’r cyfyngiadau er mwyn caniatáu i amlosgfeydd agor yn llawn.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dileu’r cyfyngiadau presennol ar deithio o fewn y DU ac i/o’r ardal deithio gyffredin, ac yn gosod cyfyngiadau a gofynion newydd ar deithio rhyngwladol (a fydd mewn grym ym mhob Lefel Rhybudd). Mae hyn yn cynnwys:

- cyfyngiadau i wahardd teithio rhyngwladol heb esgus rhesymol. Mae person sy’n ceisio teithio i gyrchfan y tu allan i’r ardal deithio gyffredin heb esgus rhesymol yn euog o drosedd ac mae’n bosibl y bydd yn wynebu Cosb Benodedig o £5,000;
- rhaid i unrhyw berson sydd mewn man cychwyn (er enghraifft, maes awyr) ac sy’n ceisio ymadael â’r ardal deithio gyffredin ac sydd ag esgus rhesymol dros wneud hynny, nawr, os gofynnir iddo, ddarparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi’i chwblhau, gan nodi’r rhesymau dros deithio. Mae’n bosibl y dyroddir Cosb Benodedig o £60 i berson sy’n methu â chwblhau ffurflen datganiad (neu sy’n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ar y ffurflen).

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau technegol, mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill, gan gynnwys i ddarparu ar gyfer gorfodi’r darpariaethau newydd ar deithio rhyngwladol.

O ganlyniad i’r diwygiadau a ddisgrifir sy’n ymwneud â theithio rhyngwladol, mae’r Rheoliadau hefyd yn diwygio’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn sicrhau bod teithwyr yn cael gwybod am y gofynion teithio a’r canllawiau iechyd y cyhoedd sydd mewn grym yng Nghymru. Diwygir y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i’w gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau perthnasol sy’n ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i’r ardal deithio gyffredin ddarparu gwybodaeth i deithwyr ynghylch y cyfyngiad ar ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan o’r fath, a’r gofyniad i gwblhau ffurflen datganiad teithio rhyngwladol. Mae’r wybodaeth hon i’w darparu ar yr adeg archebu ac o leiaf 24 awr cyn yr amser y disgwylir i’r gwasanaeth ymadael.

Fe’u gwnaed ar: 9 Ebrill 2021
Fe'u gosodwyd ar: 9 Ebrill 2021

Yn dod i rym ar: 12 Ebrill 2021
Cyfnod cymeradwyo o 28 diwrnod yn dod i ben: 3 Mehefin 2021

## SL(5)819 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn ("Rheoliadau 2021") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r rheoliadau a grybwyllir uchod yn sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig, yn nodi'r categorïau o bersonau sy'n gymwys i gael statws ffioedd cartref, yn awdurdodi rheolau cymhwystra mewn perthynas â dyfarniadau penodedig mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant, ac yn nodi'r categorïau o bersonau sy'n gallu manteisio ar ffioedd dysgu wedi'u capio.

Mae Rheoliadau 2021 yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag Ymadael â'r UE sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r Cytundebau Ymadael ac i weithredu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllid myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

Fe'u gwnaed ar: 19 Ebrill 2021
Fe'u gosodwyd ar: 22 Ebrill 2021
Yn dod i rym ar: 25 Ebrill 2021

20 niwrnod yn dod i ben: 26 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 15 Mehefin 2021

## SL(5)820 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)". Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor.

O 15 Chwefror 2021, cyflwynodd Llywodraeth Cymru waharddiad ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru os ydynt wedi bod i "wlad ar y rhestr goch" yn y 10 diwrnod blaenorol. Mae'n rhaid i deithwyr ddod i'r wlad drwy un o'r pyrth mynediad dynodedig yn Lloegr (neu'r Alban) a chwblhau cyfnod cwarantin wedi'i reoli yno am 10 diwrnod cyn teithio ymlaen i Gymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu India at y "rhestr goch" o wledydd. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i gludwyr gwaed dynol, meinweoedd ac organau sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru a chaniatáu i weithwyr iechyd neu ofal proffesiynol sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru ac ynysu yng Nghymru.

Fe'u gwnaed ar: 22 Ebrill 2021
Fe'u gosodwyd ar: 22 Ebrill 2021
Yn dod i rym ar: 23 Ebrill 2021
20 niwrnod yn dod i ben: 26 Mai 2021
40 niwrnod yn dod i ben: 15 Mehefin 2021

## SL(5)821 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") i addasu dros dro sut y mae Lefel Rhybudd 3 yn gweithredu yng Nghymru. Mae cyfnod yr addasiadau dros dro sydd eisoes mewn grym (gweler SL(5)818 - Rheoliadau Diogelu Iechyd

(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021) yn awr wedi'i estyn i ddiwedd y diwrnod ar 2 Mai 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud addasiadau dros dro pellach:

*O 24 Ebrill 2021 ymlaen:*

- Caiff y cyfyngiadau ar ymgynnull ag eraill yn yr awyr agored eu llacio er mwyn caniatáu i hyd at 6 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) ymgynnull o ddim mwy na 6 aelwyd.

*O 26 Ebrill 2021 ymlaen:*

- Caiff pobl ymgynnull yn yr awyr agored at ddibenion cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol sy'n cynnwys hyd at 30 o bobl (mae hyn yn golygu bod person dynodedig yn gyfrifol am y gweithgaredd, bod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i leihau lledaeniad y coronafeirws wrth ymgymryd â'r gweithgaredd ac nad yw alcohol yn cael ei yfed). Gall gweithgareddau sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol gynnwys protestio a phicedu, a all ddigwydd heb gyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol ar bob Lefel Rhybudd ac eithrio Lefel Rhybudd 4.
- Caniateir i fusnesau penodol, gan gynnwys atyniadau i ymwelwyr a phyllau nofio, ailagor eu mangreoedd ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored, gan gynnwys bwyta ac yfed bwyd a diod yn yr awyr agored (o 6.00 am ymlaen y diwrnod hwnnw).
- Cyhyd ag i'r weithred ddigwydd ar neu ar ôl 26 Mawrth 2020, caniateir i grwpiau o hyd at 30 o bobl ymgynnull yn yr awyr agored i ddathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu fywyd person ymadawedig.
- Caniateir i bobl ymgynnull pan gynhelir gwaith yng nghartrefi pobl, er enghraifft gan grefftwyr, heb fod angen i'r gwaith hwnnw fod yn angenrheidiol neu heb fod angen "dewis arall sy'n rhesymol" (ac eithrio ar Lefel Rhybudd 4).
- Gellir trefnu digwyddiadau "peilot" yn awr â chaniatâd Gweinidogion Cymru.

Fe'u gwnaed ar: 23 Ebrill 2021
Fe'u gosodwyd ar: 23 Ebrill 2021
Yn dod i rym ar: 24 a 26 Ebrill 2021 (gweler uchod)
Cyfnod cymeradwyo o 28 diwrnod yn dod i ben: 3 Mehefin 2021